# LC1368

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006, gan weithredu Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ("y Gyfarwyddeb"). Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau godi ffioedd i dalu'r costau a geir oherwydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion penodol o ran planhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill o drydydd gwledydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith hefyd gyfraddau gostyngol ar gyfer planhigion penodol a chynhyrchion planhigion penodol a'r rheini'n gyfraddau y cytunwyd arnynt o dan y weithdrefn y darperir ar ei chyfer yn Erthyglau 13d(2) a 18(2) o'r Gyfarwyddeb.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 17 Hydref 2006